**PWYLLGOR SAFONAU**

Hysbysiad Penderfyniad – Cyfarfod, 17 Mawrth, 2022.

Mae-r Agenda ar gael yma.

Mae recordiad y cyfarfod ar gael yma.

Yn Bresennol: : R. Hendicott (Cadeirydd); L. Tinsley (Is-Gadeirydd); P. Hallett (Aelodau Annibynnol), Cynghorydd M. Cuddy (Cynrychiolydd Cynghorau Tref a Chymuned) a Cynghorydd R.M. Birch a B.T. Gray (Cyngor Bro Morgannwg).

EITEM AGENDA 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB –

Derbyniwyd y rhain gan R. Alexander, G. Watkins (Aelodau Annibynnol) a Gynghorwyr A.R. Robertson (Cyngor Bro Morgannwg).

EITEM AGENDA 2. COFNODION –

PENDERFYNWYD – CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 27 Ionawr, 2022 fel cofnod cywir.

EITEM AGENDA 3. DATGANIADAU BUDDIANT –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiant.

EITEM AGENDA 4. CAIS AM GANIATÂD (SW/PGCD) -

PENDERFYNWYD – Nodi na dderbyniwyd unrhyw geisiadau.

Rhesymau dros benderfyniadau

Wedi nodi na dderbyniwyd unrhyw geisiadau.

EITEM AGENDA 5. TROSOLWG A GWERSI A DDYSGWYD O SYLWADAU GAN AELODAU ANNIBYNNOL O GYFARFODYDD PWYLLGORAU CYNGHORAU TREF A CHYMUNED (SW/PGCD) -

PENDERFYNWYD –

(1) Derbyn yr adroddiad a'r adborth a dderbyniwyd mewn perthynas ag ymweliadau arsylwi a gynhaliwyd gan Aelodau Annibynnol.

(2) Derbyn y byddai amserlen newydd ar gyfer cyfarfodydd Cyngor Bro Morgannwg a Chyngor Tref a Chymuned yn cael ei pharatoi'n dilyn yr Etholiadau Llywodraeth Leol ym mis Mai 2022 er mwyn i Aelodau Annibynnol y Pwyllgor Safonau arsylwi dros y ddwy flynedd nesaf.

(3) Derbyn y gall y Swyddog Monitro ar unrhyw adeg yn ystod y ddwy flynedd gynghori y dylai cyfarfodydd ychwanegol Cyngor Bro Morgannwg a Chyngor Tref a Chymuned gael eu harsylwi.

(4) Nodi'r adroddiad a'r diweddariad llafar a roddwyd yn y cyfarfod ynghylch arsylwadau Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor, mewn perthynas â chyfarfod Craffu Cyngor Bro Morgannwg a gynhaliwyd ar 10 Chwefror 2022.

(5) Diwygio'r rhestr wirio arsylwadau sy'n un o atodiadau'r adroddiad i gynnwys blwch sylwadau cyffredinol ar ddiwedd y ddogfen a rhifo pob cwestiwn i helpu i ddadansoddi yn y dyfodol.

Rhesymau dros benderfyniadau

(1-4) Wedi ystyried yr arsylwadau a wnaed a rôl y Pwyllgor Safonau ac yn dilyn ceisiadau gan y Swyddog Monitro i gyfarfodydd ychwanegol gael eu harsylwi.

(5) Wedi ystyried y trafodaethau yn y cyfarfod.

EITEM AGENDA 6. RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL Y PWYLLGOR SAFONAU (SW/PGCD) -

PENDERFYNWYD – Cytuno ar y Flaenraglen Waith yn Atodiad 1 yr adroddiad.

Rhesymau dros benderfyniadau

Wedi ystyried cynnwys y Flaenraglen Waith.

EITEM AGENDA 7. DIWYGIADAU I GYLCH GORCHWYL PWYLLGOR CYFANSODDIAD A SAFONAU'R CYNGOR (SW/PGCD) -

PENDERFYNWYD -

(1) Nodi y bydd y diwygiadau i Gyfansoddiad y Cyngor a Chylch Gorchwyl y Pwyllgor Safonau'n weithredol o 5 Mai 2022, o ganlyniad i ddarpariaethau Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

(2) Trefnu cyfarfod, fel yr amlinellir ym mharagraffau 2.3 a 2.4 yr Adroddiad, gyda Richard Hendicott, Lorna Tinsley, y Swyddog Monitro ac Arweinwyr Grwpiau sydd newydd eu penodi, yn dilyn yr Etholiadau Llywodraeth Leol, cyn cyfarfod nesaf y Pwyllgor Safonau ar 23 Mehefin 2022.

Rhesymau dros benderfyniadau

(1 a 2) Wedi ystyried darpariaethau statudol presennol a'r rheiny sydd yn yr arfaeth.

EITEM AGENDA 8. DEDDF LLYWODRAETH LEOL AC ETHOLIADAU (CYMRU) 2021: CANLLAWIAU STATUDOL SAFONAU YMDDYGIAD (SW/PGCD) -

PENDERFYNWYD –

(1) Nodi'r ymgynghoriad.

(2) Cymeradwyo ymateb y Swyddog Monitro i'r ymgynghoriad, fel y'i nodir ym mharagraff 2.2 yr adroddiad yn amodol ar ddiwygio'r ymateb i Gwestiwn 3 fel y nodir mai barn y Pwyllgor Safonau yw na fyddai'n cael effaith andwyol na chadarnhaol.

(3) Anfon ymgynghoriad Llywodraeth Cymru a'r ymateb a awgrymir, yn amodol ar y diwygiad y cyfeirir ato ym mhenderfyniad 2 uchod, i Gabinet y Cyngor i'w ystyried ac wedi hynny i Lywodraeth Cymru yn rhan o'r ymgynghoriad cyn y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno, sef 16 Mai 2022.

Rhesymau dros benderfyniadau

(1) I'w ystyried gan y Pwyllgor.

(2 a 3) I ymateb i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru erbyn 16 Mai 2022 ac i hysbysu'r Cabinet.

EITEM AGENDA 9. CYNHADLEDD SAFONAU CYMRU: CHWEFROR 2022 – ADRODDIAD DIWEDDARU (SW/PGCD) -

PENDERFYNWYD - Nodi cynnwys yr adroddiad a'r diweddariadau llafar a roddwyd yn y cyfarfod.

Rhesymau dros benderfyniadau

Wedi ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

EITEM AGENDA 10. DIWEDDARIAD YN DILYN CYFARFOD GYDA CHYNRYCHIOLWYR O GYNGOR CYMUNED SILI A LARNOG A'R SWYDDOG MONITRO YNGHYLCH ADRODDIAD ARCHWILIO CYMRU AR DDIGONOLRWYDD O RAN LLYWODRAETHU A RHEOLAETH ARIANNOL (SW/PGCD) -

PENDERFYNWYD –

(1) Nodi canlyniad y cyfarfod a gynhaliwyd gyda Chadeirydd, Is-gadeirydd a Chlerc Cyngor Cymuned Sili a Larnog a Swyddog Monitro/Pennaeth Gwasanaethau

Democrataidd a Chyfreithiol Cyngor Bro Morgannwg fel y cyfeirir ato yn yr adroddiad a'r diweddariad llafar a roddwyd gan y Swyddog Monitro yn y cyfarfod.

(2) Y dylid gofyn i'r Prif Swyddog Craffu a Gwasanaethau Democrataidd gydgysylltu ag Aelod Annibynnol o'r Pwyllgor Safonau i wneud trefniadau ar gyfer ymweliad arsylwi i arsylwi ar gyfarfod Cyngor Cymuned Sili a Larnog cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol.

Rhesymau dros benderfyniadau

(1) Wedi ystyried adroddiad y Swyddog Monitro/Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd a Chyfreithiol.

(2) Er mwyn cynnal ymweliad arsylwi a chyflwyno adroddiad i'r Pwyllgor Safonau yn unol â'r broses arsylwi Pwyllgorau.

EITEM AGENDA 11. GOHEBIAETH GYDAG OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU (SW/PGCD) -

PENDERFYNWYD – Nodi cynnwys yr adroddiad, gan ystyried y byddai diweddariad ar yr ohebiaeth a dderbyniwyd gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ac y byddai unrhyw faterion sy'n codi dan Ran II yr adroddiad yn cael eu hystyried dan Ran II yr agenda.

Rhesymau dros benderfyniadau

I hysbysu'r Aelodau o'r Pwyllgor.

GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD –

PENDERFYNWYD – O dan Adran 100A (4) o'r Deddf Llywodraeth Leol 1972, bod y wasg a'r cyhoedd yn cael eu heithrio o'r cyfarfod ar gyfer yr eitem fusnes ganlynol ar y sail ei bod yn debygol o gynnwys datgeliad o wybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir yn Rhan 4 o'r Atodlen 12A (fel y'i diwygiwyd) o'r Ddeddf, y cyfeirir at baragraffau perthnasol yr Atodlen mewn cromfachau ar ôl y pennawd munud.

EITEM AGENDA 13. GOHEBIAETH GYDAG OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU (SW/PGCD) (GWYBODAETH EITHRIEDIG – PARAGRAFFAU 12, 13 A 14) –

PENDERFYNWYD – Nodi'r wybodaeth gyfrinachol a roddwyd gan y Swyddog Monitro yn y cyfarfod.

Rhesymau dros benderfyniadau

Wedi ystyried gohebiaeth a dderbyniwyd gan yr Ombwdsmon, gan nodi ei bod yn gyfrinachol ar hyn o bryd.